Adroddiad ar yr ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n deillio o'r Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) ('y Bil')

Safbwynt y Pwyllgor

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn fodlon ar y Memorandwm. Rhoddir gwybodaeth gefndir am y Bil a'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer isod.

1. **Y Bil**

1.1. Cyflwynwyd y Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2018.

1.2. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y cyfeirir ato yn y nodyn hwn ar 7 Mehefin 2018 gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi crynodeb o'r Bil yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

1.3. Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

> *"(i)at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad); neu*
>
> *(ii)sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad".*

2 **Darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer:**

2.1 Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer y Bil cyfan (sy'n cynnwys dwy adran).

2.2 Mae'r Bil yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (ardrethu annomestig: esemptiad). Mae'r diwygiad yn

darparu bod adeiladau sydd yn feithrinfeydd planhigion, neu sy'n ffurfio rhan ohonynt, os cânt eu defnyddio'n unig mewn cysylltiad â gweithrediadau amaethyddol, yn adeiladau amaethyddol at ddibenion paragraff 1 o'r Atodlen. Effaith hyn yw bod adeiladau o'r fath yn cael eu hesemptio o ardrethi annomestig o dan adran 51 o'r Ddeddf.

2.3 Mae'r ddeddfwriaeth wedi codi o ganlyniad i benderfyniad y Llys Apêl yn *Tunnel Tech Ltd v Reeves*[1]. Yn yr achos hwn, daliwyd nad oedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cymhwyso'r gyfraith yn gywir wrth drin adeiladau sy'n feithrinfeydd planhigion (nad ydynt yn cael eu meddiannu gan weithredoedd amaethyddol na'u defnyddio at y diben hwnnw yn unig ar dir amaethyddol) fel eu bod yn esempt.

2.4 Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi y bydd y diwygiadau a wneir gan y Bil *"yn sicrhau y bydd talwyr ardrethi ar gyfer hereditamentau o'r fath yn parhau i beidio â thalu ardrethi annomestig ac y bydd y gyfraith yn cyd-fynd ag arfer flaenorol hirsefydlog Asiantaeth y Swyddfa Brisio a pholisi'r llywodraeth".*

2.5 Bydd y Bil yn dod i rym o 1 Ebrill 2015 mewn perthynas â Lloegr ac o 1 Ebrill 2017 mewn perthynas â Chymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn nodi mai'r rheswm dros y gwahaniaeth yw nad yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi asesu dim meithrinfeydd planhigion yng Nghymru. Nid yw'r un peth yn wir yn Lloegr. Dewiswyd 1 Ebrill 2017 i sicrhau na chaiff unrhyw feithrinfeydd planhigion eu hasesu na'u cynnwys ar y rhestr ardrethu annomestig gyfredol (a luniwyd ar 1 Ebrill 2017).

3 Cymhwysedd deddfwriaethol

3.1 Mae trethi lleol i ariannu gwariant awdurdodau lleol (er enghraifft y dreth gyngor ac ardrethi annomestig) yn eithriadau i'r materion polisi ariannol, economaidd a chyllidol a gedwir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (paragraff 15 o Atodlen 7A). Mae hyn yn golygu bod gan y Cynulliad gymhwysedd i basio deddfwriaeth sylfaenol ar bwnc ardrethi busnes.

3.2 Gan fod y pwnc yn un y gall y Cynulliad ddeddfu yn ei gylch, mae'n glir bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil.

4 Casgliad

4.1 Ar sail y cyngor cyfreithiol a gafwyd, roedd y Pwyllgor o'r farn bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â darpariaethau amrywiol y Bil.

---

[1] 2015 EWCA Civ 718

4.2 Trafododd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 5 Gorffennaf 2017. Mae'n fodlon ar y Memorandwm.